ichthus

CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR

Rhif 1 Cyfrol 16 Ionawr 2019

www.gofalaethbangor.org - 01248 353132 (swyddfa)

Yr hanes ar dudalen 10

Y CARTWYR CYFLYM

GWASANAETHAU'R SUL

10.00: OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT
5.30: OEDFA'R NOS

Chwefror 3	Y Gweinidog
Chwefror 10	Parch. R.O.Jones
Chwefror 17	Y Gweinidog
Chwefror 24	Mererid Mair (bore) Emaus (hwyr)
Mawrth 3	Y Gweinidog
Mawrth 10	Parch. Olwen Williams
Mawrth 17	Y Gweinidog
Mawrth 24	Parch. Eric Jones
Mawrth 31	Mr. Alun Thomas
Ebrill 7	Y Gweinidog
Ebrill 14	Plant: Sul y Blodau
Ebrill 21	Y Gweinidog
Ebrill 28	Emaus (hwyr)

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y PYTHEFNOS

Chwefror 3/10	Wyn Griffiths
Chwefror 17	Eirian Howells
Chwefror 24	Gareth Emlyn Jones
Mawrth 3	Gareth Emlyn Jones
Mawrth 10	Menna Baines
Mawrth 17	Gwenno Pritchard
Mawrth 24/31	Alwyn Ll. Ellis
Ebrill 7/14/21	Arfon Evans
Ebrill 28	John Wynn Jones
Mai 5/12	Robat Roberts

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y DRWS

Chwefror 3	Gareth Emlyn Jones
Chwefror 10/17	John Griffiths
Chwefror 24	Geraint Hughes
Mawrth 3	Geraint Hughes
Mawrth 10/17	Alwyn Ll. Ellis
Mawrth 24/31	Robat Roberts
Ebrill 7/14	John Wynn Jones
Ebrill 21/28	Gwyn Jones
Mai 5/12	Arfon Evans

RHODDWYR Y BLODAU (Cydlynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

3 Chwefror	Meira Jones
10 Chwefror	Astra Thomas
17 Chwefror	Manon Davies
24 Chwefror	Eleri W. Jones
3 Mawrth	Elizabeth Evans
10 Mawrth	Betty Thomas
17 Mawrth	Val P. Jones
24 Mawrth	Eleanor Jones
7 Ebrill	Sioned Jones
14 Ebrill	Helen Morris
21 Ebrill	Menna Baines
28 Ebrill	Enyd Roberts
5 Mai	Maisie Griffiths

GAIR GAN Y GWEINIDOG

Y PARCHEDIG ELWYN RICHARDS

Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch. Wedi prysurdeb cyfnod y Nadolig bu'r flwyddyn newydd yn ddigon distaw i ni yn yr Ofalaeth ond yn gynnwrf byw yn y byd gwleidyddol o'n cwmpas.

Ymddengys nad oes eto weledigaeth eglur na chytundeb cyffredinol ar fater Brexit, a chlywyd yr wythnos ddiwethaf y Parchedicaf Rowan Williams, cyn-archesgob Caergaint, yn lleisio ei bryderon am natur ymfflamychol y drafodaeth a thuedd gwleidyddion i gredu fod gwarchod un safbwynt yn golygu difrïo pob safbwynt arall yn llwyr. Y mae natur fygythiol ac amhriodol rhai o'r sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd wedi peri gofid, a chlywyd bod rhai merched o wleidyddion, yn enwedig, wedi dioddef casineb a sen gan eu gwrthwynebwyr.

Hyderwn fod yr Eglwys a'i gwerthoedd o hyd yn ddylanwad da yn y fath sefyllfa, a'i phwyslais ar gariad a chymod yn fodd i hybu cyd-ddealltwriaeth a lliniaru eithafiaeth. Ond nid yw'r Eglwys hithau heb ei hanawsterau, a chawsom ein hatgoffa unwaith eto eleni o'i diffyg undeb gan yr 'wythnos weddi am undeb Cristnogol' a gynhaliwyd o'r 18ed i'r 25ain o Ionawr.

Thema'r wythnos oedd 'Cyfiawnder yn Unig' a threfnodd Cytûn Bangor nifer o oedfaon yn ystod yr wythnos. Lluniwyd y deunydd addoli gan Gristnogion Indonesia, y wlad fwyaf yn Ne-ddwyrain Asia, sy'n cynnwys tua 17,000 o ynysoedd, 1,340 o wahanol grwpiau ethnig a thros 740 o ieithoedd lleol. Amcangyfrifir bod tuag 86% o boblogaeth o 260 miliwn yn Fwslimiaid ac Indonesia yw'r wlad sydd â'r boblogaeth Islamaidd fwyaf yn y byd. Mae tua 10% o bobl Indonesia yn Gristnogion o amrywiol draddodiadau, a cheir hefyd yno gymunedau o Fwdhyddion a Hindwiaid.

Er eu holl amrywiaeth mewn ethnigrwydd, iaith a chrefydd, mae pobl Indonesia wedi ceisio byw yn unol ag egwyddor 'gotong royong' sef drwy 'gydsefyll a chydweithredu', gan ystyried pawb yn frodyr a chwiorydd i'w gilydd. Ond gall y cytgord hwnnw fod yn fregus ar adegau, ac mae pethau penodol yn ei fygwth, megis llygredd ym myd gwleidyddiaeth a busnes, materion amgylcheddol ac economaidd a thlodi mawr llawer o'r boblogaeth.

Drwy ymateb i'w sefyllfa rhoddodd Cristnogion Indonesia lais i ninnau hefyd wrth ystyried ein sefyllfa fel eglwysi a chymryd o ddifri weddi Iesu

'ar iddynt oll fod yn un' (Ioan 17:21). Dyma'r fendith oedd yn cloi'r oedfa ecwmenaidd yn y daflen adnoddau:

Boed i Dduw eich cofleidio â'i gariad a gwneud i garedigrwydd lifo ohonoch.
Boed i Dduw ennyn dewrder o'ch mewn a'ch trawsffurfio i fod yn offerynnau ei gyfiawnder a'i dangnefedd.

Rhodded Duw i chi ostyngeiddrwydd a'r dyfalbarhad i weithio tuag at undod. Amen.

Anfonwn ein cofion at bawb sy'n wael neu'n llesg ar ddechrau blwyddyn newydd. Bylchwyd sawl aelwyd yn ystod y misoedd diwethaf, ac mae pryderon a gofidiau yn dod i ran pawb ohonom o dro i dro. Hyderwn y bydd 'y ffydd a roddwyd unwaith i'r saint' yn gynhaliaeth i ninnau ac yn cyfeirio ein meddwl a'n gweithredoedd wrth inni geisio dilyn Iesu Grist.

BETH SY'N MYND YMLAEN YMA?

JOHN WYNN JONES
(Ysgrifennydd gosod yr adeilad)

Pan adeiladwyd y Capel yn y flwyddyn 2002 roedd yn fwriad i'r adeilad fod yn adnodd pwysig ac agored ar gyfer yr holl gymdeithas.

Bydd y mwyafrif o'r aelodau sy'n mynychu yn ymwybodol o'r oedfaon am 10 y bore, sy'n cynnwys yr Ysgol Sul, ac am 5.30 yr hwyr ar y Sul. Mae hefyd gyfarfod canol wythnos fel arfer ar nos Iau, yn Seiat neu Gymdeithas, am 7 yr hwyr. Mae Owain Davies, ein Gweithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd, yn cynnal gweithgareddau ar gyfer sawl oedran ar nos Lun o tua 6 yr hwyr tan tua 9 o'r gloch.

Mae Prifysgol y Drydedd Oes (U3A) yn cynnal cyfarfod yn y Capel bob bore Iau am 10 ac yn defnyddio ystafelloedd eraill i hybu eu gweithgareddau. Maent yn cael siaradwyr i drafod pynciau amrywiol.

Ar bnawniau Llun, Mercher ac Iau mae adran o'r Brifysgol yn cynnal dosbarthiadau Cymraeg ac mae meithrinfa i warchod y plant bach tra bydd y rhieni yn y dosbarth.

Ar bnawn Mawrth mae grŵp Ti a Fi wedi ei sefydlu ar y cyd efo grŵp Cwtsh gan roi man cyfarfod i rieni ifanc.

Felly fe welwch fod yna ddefnydd cyson ar yr adeilad, ond yn ychwanegol yr ydym yn llogi'r Capel a'r Festri allan ar gyfer gwahanol weithgareddau.
Bydd y Capel yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr isod:

- Cyngherddau Nadolig a Diolchgarwch ysgolion lleol
- Cyngerdd Nadolig Aelwyd John Morris Jones o'r Brifysgol
- Cyfarfodydd cyhoeddus ar bynciau llosg y dydd gan sawl cymdeithas

Defnyddir y Festri fel a ganlyn:

- Ymarferiadau Agor y Llyfr (cyflwyniadau dramatig o straeon Beiblaidd) cyn ymweld ag ysgolion cynradd lleol
- Arholiadau Cerdd
- Gorsaf Bleidleisio
- Ymarferiadau côr
- Pwyllgorau amrywiol gan Gyngor Gwynedd.
- Boreau Coffi gan sawl cymdeithas

Daw ceisiadau cyson gan wahanol fudiadau ac mae ein cyfleusterau'n atyniadol gyda maes parcio sylweddol a chegin i ddarparu paned. Ers blwyddyn rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth Skype drwy garedigrwydd swyddfa'r Cyfundeb yn Nghaerdydd.

Gobeithio bod yr uchod yn amlygu bod ein bwriad gwreiddiol o fod yn adnodd agored i'r gymuned yn cael ei gyflawni.

Fe fyddwn yn gwneud yn sicr fod pob mudiad sy'n defnyddio'r adeilad yn ymwybodol mai Addoldy yw'r adeilad yn gyntaf oll ac fe ddisgwylir iddynt felly ei barchu.

Hoffwn hefyd ddiolch i Mrs Wendy Davies, ein glanhawraig, am gadw ein haddoldy'n daclus drwy gydol y flwyddyn.

ANGEN GWIRFODDOLWYR BANC BWYD

Welsoch chi'r ffilm *I Daniel Blake* ar y teledu dros Dolig? Trist ofnadwy oedd gweld pobl yn ddibynnol ar fanc bwyd – fel sawl un ym Mangor.

Mae Berea Newydd yn fan casglu bwyd, ac rydym angen dau neu dri o wirfoddolwyr. Y cwbl mae'n ei olygu ydi gwagio'r fasged bwyd yn y capel ambell i Sul, a mynd â'r nwyddau i'r Gadeirlan yn ystod yr wythnos. Os allech chi wneud hyn yn eich tro, cysylltwch â Delyth *delythoswy@btinternet.com*. A diolch i Miss Gwenno Pritchard sydd wedi bod yn gwneud y dasg dros y flwyddyn ddiwethaf.

DOSBARTH DERBYN

Mae'r Gweinidog yn awyddus i gynnal dosbarthiadau derbyn ar gyfer y rhai sydd am ddod yn gyflawn aelodau. Rhowch eich enwau iddo ef neu Owain Davies cyn gynted ag y bo modd, os gwelwch yn dda.

YNG NGHWMNI YSGOLHEIGION

GERAINT PERCY JONES

Adolygiad o *Y Traethodydd 727* (Hydref 2018) (Gwasg Pantycelyn, £4.00)
William Salesbury: Un o Gymwynaswyr Mawr y Gymraeg

Dyma'r gwerth pedair punt gorau i mi ei gael ers blynyddoedd ond deunydd i'ch cadw rhag mynd i'ch gwely ac nid rhywbeth i'w ddarllen yn y gwely a geir yn rhifyn diweddara'r *Traethodydd*. Pan drigai ym Mangor, yr oedd Yr Athro D. Densil Morgan yn gyfaill da i ni ym Merea Newydd. Braint fyddai cael gwrando ar fwrlwm a choethder ei wasanaeth. Rhyfeddod i mi yw ehangder a dyfnder ei ddysg a rhwyddineb y modd y rhanna ei frwdfrydedd a'i ysgolheictod. Ef bellach yw golygydd *Y Traethodydd*, cyfrifoldeb y mae iddo linach anrhydeddus. Ffrwyth y gynhadledd *'Gair i'r Cymry: Archwilio Testament Newydd 1567'* yw cynnwys rhifyn Hydref 2018. Nod y gynhadledd oedd dathlu camp William Salesbury, un o ysgolheigion disgleiriaf cyfnod y Dadeni ac un o gymwynaswyr mwyaf ein hiaith a'n crefydd.



Cyfieithiad Thomas Huet o *Lyfr y Datguddiad* gaiff sylw Christine M. Jones a'r pwyslais a roddodd ef ar ffurfiau tafododieithol yn ei ymgais i wneud y testun yn haws i'w ddeall i drigolion annysgedig Dyfed.

Yn ei erthygl 'Diosg yr Allorau' y mae D. Densil Morgan yn rhoi sylw manwl i gyfrol lai hysbys gan Salesbury lle y crefir ar y werin Gristnogol i gefnu ar eu hen arferion ac anwesu'r ffydd newydd. Er y ceid cwestiynau a dadleuon diwinyddol tanbaid yn y cyfnod, araf oedd y symudiad tuag at ddiwygio crefydd yn unol â chanonau'r Brotestaniaeth feiblaidd. Yn ogystal â'i ddiddordebau llenyddol a dyneiddiol a hefyd ei ysgolheictod feiblaidd, mynnai William Salesbury gydag angerdd ymwrthod â chrefydd ddirywiedig y Pab. Adfer purdeb y ffydd – fel y gwelai ef y peth – i'w gyfoeswyr a'i gyd-wladwyr oedd ei nod.

Prin wyth tudalen yw cyfraniad Ceri Davies yn ei erthygl ef, 'William Salesbury: Dyneiddiwr Cristnogol', ond y mae'n gyforiog o wybodaeth. Fe'n cyflwynir i Salesbury'r ysgolhaig

rhyfeddol y dylanwadwyd arno gan y symudiad Ewropeaidd grymus y rhoddir yr enw Dadeni Dysg arno. Yn erbyn y cefndir yma y gosodir mawredd ysgolheictod Salesbury ac yn ogystal sylfeini dysg Cymry eraill cyfnod y Dadeni. Disgyblion oedd y rhain i'r ysgolhaig a anwyd yn yr Iseldiroedd tua 1469 y gwyddom i gyd ei enw, (Desidirius) Erasmus, ysgolhaig y dywed Ceri Davies amdano mai ef, yn ddigwestiwn, oedd 'un o'r dysgedigion mwyaf erioed'.

Ar ddiwedd yr erthygl dyfynnir o ragymadrodd Erasmus i'w Destament Newydd, *'Gwyn fyd na châi'r amaethwr lafarganu darn o'r Beibl wrth ei aradr, y gwehydd byncio rhan ohono wrth ei wydd, a'r teithiwr ysgafnhau blinder y siwrne â'i storïau.'*

Yn ei erthygl yn ymdrin â dulliau cyfieithu Salesbury y mae Geraint Lloyd yn nodi bod rhaid i'r Cymro, yn wahanol i gyfieithwyr megis Tyndale a Luther, ddechrau trwy lunio geiriadur a dechrau'r broses o foderneiddio hen iaith a'i throi'n iaith safonol, ystwyth, addas ar gyfer pob math o feysydd. Trwy ei ymdrechion, nodir, llwyddwyd i sicrhau mai Cymraeg fyddai iaith dyfodol Protestaniaeth Cymru.
Ysgrif hyfryd yn olrhain ei ddiddordeb ym marddoniaeth R. S. Thomas a geir gan John Emyr. Mewn llythyr at R.S. unwaith gofynnodd John iddo pa fath o gerddi Cymraeg oedd yn apelio ato fwyaf. Yn ei atebiad cynnes cyfaddefodd y bardd fod yn well ganddo'r hen na'r newydd. Digwyddaf fod yn darllen y gyfrol *Cofio RS: Cleniach yn Gymraeg?* ac yno cyfeirir at R. S. Thomas yn darllen ei gerddi yn Rhydychen i lond neuadd o Saeson diwylliedig ac yn cael y cwestiwn, 'Pwy yw eich hoff fardd chwi, Mr Thomas?' Synnwyd y gynulleidfa gan yr ateb, 'Hm, Gruffudd ab yr Ynad Coch, naturally.'

Adran ddiddorol yn *Y Traethodydd* yw'r un lle ceir adolygiadau treiddgar a lled estynedig ar gyfrolau diweddar. *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Cyfrol IV, Yr Ugeinfed Ganrif,* cyfrol 544 tudalen, sy'n cael sylw D. Densil Morgan. Dadansodda ei chryfder a'i gwendidau. Gallwn alarnadu o'i darllen ond gallwn hefyd edmygu dycnwch ac arwriaeth dawel ein harweinwyr. Cyfrol drwchus arall – 441 tudalen – gan Hefin Wyn, *Ar Drywydd Niclas y Glais*: Comiwnydd Rhonc a Christion Gloyw, sy'n cael sylw manwl Robert Pope. Llyfr difyr a hynod ddarllenadwy meddir amdano, cyfrol i'w chroesawu'n wresog a'i chymeradwyo. Yr oedd Thomas Evan Nicholas yn un o gymeriadau mwyaf lliwgar Cymru'r ugeinfed ganrif. Gareth Evans-Jones, ysgolhaig ifanc disglair ym Mhrifysgol Bangor – a hogyn o Sir Fôn – sy'n ein hannog i ddarllen cyfrol M. Wynn Thomas, *Cyfan-dir Cymru: ysgrifau ar gyfannu dwy lenyddiaeth Cymru.*

Mewn llythyr yn *Y Goleuad* yn ddiweddar hola John Gruffydd Jones, Abergele, pwy sydd y tu ôl i'r ffwlbri o alw am gyfieithiad arall o'r Beibl a glastwreiddio pellach ar ieithwedd un o drysorau mwyaf ein cenedl. Rwy'n

sicr fod John, y llenor y cawn ei gwmni ar dro yn ein gwasanaethau ym Merea Newydd, yn un o ddarllenwyr mwyaf brwd a gwerthfawrogol y teyrngedau a geir yn y rhifyn diweddara o'r *Traethodydd* i William Salesbury.

CYFIAWNDER YN UNIG

DEUTERONOMIUM 16:20

Bob blwyddyn mae Cytûn Bangor yn cefnogi'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol a drefnir rhwng y 18fed a'r 25ain o Ionawr (wyth niwrnod Pedr a Phaul) gan Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon.

Eleni paratowyd y deunyddiau gan Eglwysi Indonesia ar y thema uchod. Ymhlith y materion a godir ganddynt mae pwyslais ar anghyfiawnder economaidd. Felly cychwynnodd yr Wythnos yn y caffi yng Nghanolfan Deiniol gyda Storïau a Gweddïau ar y thema Tlodi a Chredyd Cynhwysol.

Cafwyd anerchiadau gwerthfawr a hynod berthnasol gan Hywel Williams AS, Y Parch. Mererid Mair Williams o Eglwys Noddfa, Caernarfon, a Lesley, un o wirfoddolwyr Banc Bwyd y Gadeirlan. Cododd amryw o gwestiynau a sylwadau o brofiad aelodau'r gynulleidfa. Paratowyd llythyr gan ein hysgrifennydd, Ian Russell, i'w anfon at Amber Rudd, Gweinidog Gwladol Adran Gwaith a Phensiynau yn y Llywodraeth sy'n gyfrifol erbyn hyn am ddatrys y problemau ynglŷn â'r Credyd Cynhwysol fydd yn y pen draw yn disodli chwe budd-dal gwahanol. Cafodd pawb oedd yno gyfle i arwyddo'r llythyr. Darllenodd gŵr ifanc, sydd â phrofiad ei hun o'r anawsterau, gerdd a ysgrifennodd am ei brofiadau ef ac eraill.

Cyn ymadael cawsom weld y dogn a geir o'r Banc Bwyd i'r rhai sydd ei angen a chyfle i gynnau cannwyll.

Dyma'r weddi gan Gymorth Cristnogol ddaeth â'r cyfarfod i ben:

GWEDDI O AMERICA LADIN
Arglwydd, i'r rhai sy'n newynog rho fara
Ac i'r rhai sydd â bara, rho newyn am gyfiawnder.

Amen.

Nos Wener cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau Plygain yn y Gadeirlan.

Nos Lun bu Gwasanaeth yn Eglwys Gydenwadol Emaus.

Amser cinio dydd Iau cafwyd Gwasanaeth Ymwybyddiaeth Ofalgar yn y Gadeirlan a daeth yr Wythnos i ben gyda Gwasanaeth Taize yn adeilad hynod Eglwys Ein Harglwyddes a Sant Iago

GWASANAETHAU'R NADOLIG

Diolch i bawb a gymerodd ran yng ngwasanaethau Nadolig y plant. Uchod gwelir gwasanaeth Berea ac isod un Bethania. Roedd graen arbennig ar y ddau, a hefyd ar wasanaeth yr ieuenctid ym Merea.

PLANT, IEUENCTID A THEULUOEDD

OWAIN DAVIES

LLAN LLANAST – Braf oedd croesawu tua deugain o blant i Llan Llanast, prynhawn o weithgareddau amrywiol i blant ddydd Sadwrn 27 Hydref. Bu'r plant yn brysur yn gwneud crefftau o bob math ar y thema 'Goleuni' ac yn cymryd rhan mewn gemau. Cafwyd gwasanaeth dan ofal Owain Davies, y Parch Casi Jones, gweinidog newydd Emaus, James Goodman ynghyd â Hannah ac Eleri o Dîm i Gymru, gwirfoddolwyr ifanc sydd wedi treulio cyfnod yn gweithio gyda chapeli yn Arfon ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru. Dyma'r ail ddigwyddiad o'r fath i gael ei drefnu ar y cyd rhwng Berea Newydd ac Emaus.

CODI PRES AT BLANT MEWN ANGEN – Cafodd aelodau clybiau CIC Berea a Felinheli lawer o hwyl mewn nosweithiau i godi arian tuag at Blant mewn Angen. Codwyd cyfanswm o £80 tuag at yr achos wrth i'r plant wisgo eu pyjamas a'u citiau pêl-droed a chymryd rhan mewn gemau a gweithgareddau eraill. Hefyd crëwyd fideos i ymgyrch Pawen Lawen Radio Cymru. Da iawn chi blant!

TRIPIAU DIWEDD TYMOR – Aeth plant y clybiau CIC ar dripiau i ddathlu diwedd tymor. Aeth y plant hŷn i gartio yng Nghaernarfon. Yno bu cystadleuaeth ffyrnig rhyngddynt ar y trac, gyda Morgan Owen yn fuddugol. (Gw. ei lun ef, Moi Hallam (ail), Gwion Siôn (trydydd) a Meilyr Lynch (pedwerydd) ar y clawr.) Aeth aelodau CIC Bach ar ymweliad i'r Hwylfan lle cafwyd amser gwych a chwyslyd iawn ac roedd pawb yn awchu am fwyd erbyn cyrraedd McDonalds i orffen y noson. Diolch i'r holl blant a'r rhieni ddaeth efo ni.

Cic Bach yn yr Hwylfan

Codi pres at Blant Mewn Angen ym Merea ac (isod) ym Methania

Y GYMDEITHAS

GWASANAETH PLYGAIN

Nos Iau 13 Rhagfyr cawsom gyfle i fynd i ysbryd y Nadolig wrth i Alwen Derbyshire a'i ffrindiau o'r Felinheli gynnal gwasanaeth Plygain yn Y Gymdeithas.

Difyr oedd clywed tipyn o hanes y Plygain gan Alwen cyn i'r côr, a rhannau ohono, ganu rhai o'r carolau sy'n gysylltiedig â'r traddodiad. Bu pedair o aelodau'r capel yn cymryd rhan hefyd – Lynn Jones yn canu a Sioned Jones, Eleri Jones ac Elin Walker Jones yn darllen barddoniaeth. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Eirian Howells a diolchodd y Parch Ddr Elwyn Richards, ein gweinidog, i'r côr a'r aelodau am y gwasanaeth.

Sioned Jones, Lynn Jones, Elin Walker Jones ac Eleri Jones: Yr aelodau a gymerodd ran yn y gwasanaeth plygain

Y plygeinwyr o'r Felinheli

NOSON EFO JOHN GRISDALE

GERAINT PERCY JONES

‘AM ERAILL MAE’N YMOROL’

Arwyddair Tîm Achub Mynydd Llanberis ydi *‘Mwynhewch y Mynyddoedd yn Ddiogel’*. Llynedd roedd y Tîm yn dathlu ei ben-blwydd yn hanner cant a nos Iau Ionawr 10 cawsom groesawu John Grisdale, Llywydd y Tîm yn 2018, atom i sôn rhywfaint am hanes y Clwb ond yn bennaf i sôn am y gwaith y maen nhw’n ei wneud ar y mynydd. Yr oedd graen arbennig ar y cyflwyniad a gawsom.

Ar ddechrau ei sgwrs aeth John â ni am dro ar hyd Pedol Marchlyn ar ddiwrnod pan oedd o a’i gyd-fynyddwr yn cerdded mewn heulwen yn yr eira, yn glir o’r niwl oddi tanynt. Yna manylwyd ar waith y Tîm ar y mynydd ymhob tywydd a than bob math o amgylchiadau. Yn y dyddiau cynnar cymharol fach oedd nifer y galwadau a geid. Llynedd fe’i galwyd allan dros ddau gant o weithiau.

Mae’n werth pwysleisio mai gwirfoddolwr ydi pob un o aelodau’r tîm a phob un ohonyn nhw yn fynyddwr profiadol iawn haf a gaeaf. Trigolion lleol sydd yn adnabod eu mynyddoedd yn fanwl ydyn nhw i gyd. Yng nghwrs blwyddyn daw dros 700,00 o ymwelwyr i’r Wyddfa ac mae mwy na 445,000 yn cerdded i’r copa. Yn anochel digwydd

John Grisdale gyda Geraint Percy Jones, llywydd y noson

damweiniau a nod y Tîm Achub ydi rhoi cymorth i’r rhai sydd ei angen ar y mynyddoedd o amgylch Llanberis.

Yr oedd y lluniau a ddangosodd John ar ddiwedd ei sgwrs i gyfleu prydferthwch Eryri yn brawf eglur o’i ddawn fel ffotograffydd sydd yn deall pwysigrwydd golau ac un a ŵyr pryd ac ymhle i dynnu llun. Yn ogystal â bod yn fynyddwr dangosodd hefyd ei fod yn ddaearyddwr, yn ddaearegwr, yn fotanegydd ac yn hanesydd.

Cyflwynwyd John Grisdale ar y cychwyn fel “y gŵr na all ddweud ‘Na’ ”. A dynion a merched felly ydi pob un o aelodau’r Tîm pan fo galwad arnynt i fynd i helpu ar y mynydd.

ENWAU LLEOL

GLENDA CARR

Dyma ail ran ein cyfres ar enwau lleoedd yn y cyffiniau.

DAU FYNYDD A DAU LYN

Y GLYDER A THRYFAN

Dyma ddau fynydd y gellir eu gweld o Fangor ac a roddodd eu henwau i fannau ym Mangor, sef Lôn y Glyder, Maes Tryfan ac Ysgol Tryfan. Rhaid nodi ar y dechrau fod *Y Glyder* yn ffurf hollol anghywir. Mae yna ddau fynydd ym mhen uchaf Nant Ffrancon, sef *Y Gludair Fawr* a'r *Gludair Fach*. Trodd *Gludair* yn *Gludar* ar lafar gwlad, ac mae'n debyg mai fersiwn Saesneg ffug yw *Glyder*, yn union fel y llurguniwyd *Yr Eifl* yn *The Rivals*.

Cludair yw'r enw gwreiddiol gyda'r ystyr o lwythi neu dwmpathau o bethau wedi eu hel at ei gilydd. Cyfeiriodd Syr Ifor Williams at ddefnydd o'r gair yn y Beibl (1 Bren. V, 9) lle sonnir am hel cedrwydd Libanus i adeiladu teml Solomon a'u gyrru 'yn *gludeiriau* ar hyd y môr'. Cael eu symud 'by sea in floats' a wneir yn y fersiwn Saesneg. Yr un yw'r syniad, fodd bynnag, sef twmpathau mawr o ddefnyddiau. Awgrymodd Syr Ifor fod y sawl a enwodd y mynyddoedd yn Arfon wedi eu gweld fel dau bentwr anferth, neu efallai fod yma gyfeiriad at y twmpathau o gerrig mân ar eu copaon.

Beth am Tryfan? O leiaf, mae hwn yn enw Cymraeg diledryw. Mae dau faen mawr ar gopa'r mynydd, a cheisiodd rhai 'gwybodusion' awgrymu fod yna drydydd maen yno ar un adeg, er mwyn iddynt fedru esbonio'r enw fel 'Tri faen'! Mae Geiriadur Prifysgol Cymru yn nodi *tryfan* fel ansoddair â'r ystyr 'blaenfain' a hefyd gyda grym enwol. Esboniodd Syr Ifor Williams yr enw fel *try–* + *bann*. Nid *tri* sydd yma ond y *try–* a geir mewn geiriau megis *tryloyw*, lle mae'n cryfhau'r ansoddair. Ystyr *bann* fel enw yw 'pig', neu 'bwynt', a'i ystyr fel ansoddair yw 'uchel'. Felly, os cyfunir *try* + *bann*, mae'n amlwg fod hwn yn fynydd uchel iawn.

LLYN OGWEN A LLYN CWELLYN

Yr afon *Ogwen* a roddodd ei henw i'r llyn ac i Ddyffryn Ogwen. Nid *Ogwen* oedd ei henw yn wreiddiol, ond *Ogfanw.* Wedyn fe gollwyd yr *w* ar ddiwedd y gair, yn union fel y trodd *cefnderw* yn *cefnder* a *syberw* yn *syber.* Bellach, y ffurf oedd *Ogfan*. Ond mae tuedd i *f* ac *w* ymgyfnewid ambell dro, fel yn *cawod / cafod* a *tywod / tyfod.* Trodd yr enw yn *Ogwan.* Yn awr mae'r 'gwybodusion' yn camu i mewn unwaith eto. (Pobl beryglus yw'r rhain!). 'Hen ffurf lafar goman yw *Ogwan,*' meddent. 'Y ffurf gywir , safonol yw *Ogwen*, debyg iawn.' Ond fe wyddom ni'n amgenach, sef mai *Ogf**a**nw* gydag *a* ac nid *e* yn ei chanol oedd y ffurf wreiddiol.

Ond beth yw ystyr *Ogfanw*? Mae dwy elfen i'r enw, sef *og* + *banw.* Daw *og* o *awg,* sef 'cyflym'. Porchell, sef mochyn bach, yw *banw*. Nid yw 'mochyn bach' yn enw mor od â hynny ar afon. Camp y mochyn, fel yr afon, yw medru tyrchu ei ffordd drwy'r tir. Ceir afonydd o'r enw *Hwch* a *Twrch* am yr un rheswm. Ac yn nes adref, ni ddylem anghofio am *Colwyn*. 'Ci bach' yw *colwyn*, ac mae cŵn bach yn rhai da am dyrchu hefyd.

Mae *Cwellyn* yn enw ar lyn ym Metws Garmon ac yr oedd gynt yn enw ar dŷ yn yr un ardal. Mae'r cofnod cynharaf a welais am annedd *Cwellyn* yn dyddio o 1604. Yn ei lyfr *A Description of Caernarvonshire* a ysgrifennwyd rhwng 1809 ac 1811 cyfeiria Edmund Hyde Hall at y tŷ fel 'a very mean building'. Dywed fod teulu o'r un enw wedi bod yn berchen arno ar un adeg. Ceir ewyllys o 1719 gan ŵr o'r enw Ellis Quellyn o Lanwnda a briododd ferch Pengwern yn yr un plwyf.

Mae'r Athro J. Lloyd-Jones yn tarddu'r enw'n ddibetrus o *cawell* + *llyn*. Efallai mai llyn ar ffurf cawell a olygir, neu gallai gyfeirio at gawell a osodid yn y llyn i ddal pysgod. *Cwellyn* ac amrywiadau arno yn ddiau oedd y ffordd y sillefid enw'r annedd i gychwyn, er y cofnodwyd *Cwillyn* yn 1604 a *Coellyn* yn 1624. Fodd bynnag, erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif dechreuwyd

Llyn Ogwen

ei sillafu yn *Quellyn*. Mae'r sillafiad mwngrelaidd *Quellyn* yn ddiddorol. Tra dengys y *Qu–* ddylanwad y Saesneg, cedwir ynganiad Cymraeg y llythyren *ll*, ond ni ellir esbonio pam y Seisnigwyd yr enw i'r graddau hyn. Efallai fod rhywun rywbryd wedi penderfynu fod *Quellyn* yn edrych yn grandiach. Drwy ryw drugaredd, mae'r ffurf *Cwellyn* wedi ei hadfer ar enw'r llyn. Fodd bynnag, ar ôl dweud hyn i gyd, rhaid nodi nad *Cwellyn* oedd enw gwreiddiol y llyn, ond *Tarddenin*. Ond stori arall yw honno.

CYFRANIADAU I ICHTHUS

Mae Ichthus yn mynd i'r wasg ar ddechrau wythnos olaf pob mis, felly os oes gennych gyfraniad, boed yn erthygl, adroddiad, neu lun, gyrrwch at *gdeiniol@hotmail.com* neu *menna@fforddpenrhos.plus.com* ar ddechrau'r wythnos flaenorol os gwelwch yn dda.



GWEITHREDU YN LLE CWYNO

BRENGAIN GLYN WILLIAMS

Yn ddiweddar cafodd Brengain Glyn Williams o'r Felinheli ei hethol i gynrychioli Arfon yn Senedd Ieuenctid Cymru. Mae Brengain yn un o blant Bethania ac yn ddisgybl yn Ysgol Tryfan, ac yma mae'n dweud pam y penderfynodd sefyll yn yr etholiad ac yn rhannu rhai o'i gobeithion.

Yng nghanol gwallgofrwydd Trump a'i wal, a llanast Brexit, y peth callaf glywais i'n cael ei ddweud yn ystod y flwyddyn aeth heibio oedd fy mrawd yn fy herio, "Yn lle eistedd yn fan'na yn cwyno, pam na 'nei di ddefnyddio dy egni i wneud rhywbeth buddiol yn ei gylch o?" Wedi bod yn rhefru oeddwn i am ddiffyg hanes Cymru ar fy nghwrs TGAU Hanes. Ar ôl blwyddyn o ddysgu am hanes America, dyma droi at hanes y frenhines Seisnig Elizabeth I. Dim sôn am dywysogion Cymru, am Owain Glyndŵr na Hywel Dda. Fydda'i ddim yn gwrando ryw lawer ar baldaruo fy mrawd mawr, ond mi arhosodd ei eiriau hefo fi y tro yma, ac felly pan glywais i ym mis Mai fod Senedd Ieuenctid am gael ei sefydlu yng Nghymru, dyma feddwl yn syth am ymgeisio i fod yn aelod. Roedd yn rhaid i mi benderfynu ar dri mater allweddol i'w cyflwyno fel pob darpar ymgeisydd, fel y gallai pobl ifanc Arfon bleidleisio.

Yn ogystal â chael mwy o hanes Cymru ar ein cwricwlwm, fel ail fater i'w gyflwyno penderfynais ar ehangu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn ein cymdeithas. Rwy'n byw yn y Felinheli sydd â bron i 70% o'i drigolion yn siarad Cymraeg. Serch hyn, credaf fod y cyfleon i siarad yr iaith wrth siopa neu wrth weithio ym Mangor yn brin ac anghyson i ardal draddodiadol Gymreig, ac felly rwy'n benderfynol o ddenu mwy o drigolion Bangor i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i annog y bobl sydd yn gyndyn o'i siarad oherwydd diffyg hyder i'w dysgu. O gofio beth ddigwyddodd gyda pholisi 'Sports Direct' yn ddiweddar, credaf ei bod hi'n fwy angenrheidiol nag erioed i ni Gymry Cymraeg gynnig cymorth a chefnogaeth i'r rhai sydd yn fodlon ailafael yn yr iaith. Mae'n rhaid cyfaddef i mi gael dipyn o sioc pan glywais mai fi oedd yn fuddugol, ac roedd gorfod mynd o gyfweliad i gyfweliad yn dipyn o fedydd tân.

Y trydydd datblygiad yr hoffwn ei weld dros fy nghyfnod o ddwy flynedd fel aelod o'r Senedd Ieuenctid yw cardiau teithio am ddim i bobl ifanc y wlad. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfleus iawn i ni fel pobl ifanc gan nad ydyn ni'n gallu

gyrru eto. Fodd bynnag, gall hyn fod yn gostus iawn, ac mae hynny'n gallu rhwystro plant o ardaloedd difreintiedig Cymru rhag defnyddio bysiau neu drenau. Byddai cael cardiau teithio am ddim yn ein galluogi i deithio o un man i'r llall heb boeni am ein harian, a byddai cynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus o fudd i'r amgylchedd.

Mae hi'n fraint enfawr cael bod yn rhan o'r sefydliad newydd, cyffrous yma, ond mae o hefyd yn dipyn o gyfrifoldeb. Mi fydd yn rhaid ymgynghori ag ieuenctid Arfon ynglŷn â'u dyheadau a'u safbwyntiau amrywiol. Mae'n amlwg wrth edrych ar faterion allweddol fy nghyd-aelodau fod pynciau megis iechyd meddwl a gwella trafnidiaeth gyhoeddus yn bynciau fydd angen sylw, ond dw i'n sicr yn edrych ymlaen at yr her ac yn hynod ddiolchgar am gael defnyddio fy egni i geisio gwneud rhywbeth buddiol.

CORNEL CODI GWÊN

GLYN LLOYD JONES

MAE ANGEN ARWEINIAD AR BAWB WEITHIAU

Hoff ddull un aelod o'r Capel o dderbyn arweiniad dyddiol oedd agor Y Beibl ar hap a damwain wedi brecwast, a darllen yr adnod gyntaf y byddai ei lygaid yn disgyn arni.

Ar y diwrnod arbennig yma, trodd i Efengyl Mathew, pennod 25 a darllennodd y 5ed adnod :

'Aeth Jiwdas ymaith ac fe'i crogodd ei hun.'

Gan feddwl nad dyma'r math o arweiniad delfrydol, trodd i ran arall o'r Beibl. Y tro hwn, agorodd yn y ddegfed bennod o Luc ble glaniodd ei lygaid ar adnod 37 :

'Dos, a gwna dithau yr un modd.'

Wedi cynhyrfu braidd, caeodd Y Beibl eilwaith a'i agor eto gan obeithio cael gwell lwc y tro hwn. Yn anffodus, geiriau Ioan yn ei drydedd bennod ar ddeg, ac adnod 27 oedd :

'Yr hyn yr wyt yn ei wneud, brysia i'w gyflawni.'

Ar y bore arbennig hwn, dychwelodd y cyfaill i'w wely'n reit sydyn gan obeithio am well arweiniad drannoeth!

EMYN A DARLLENIAD

	EMYN	DARLLENIAD
3 Chwefror	372 Niclas Roberts	Salm 15 (Beibl.net) Mati Wyn Roberts
10 Chwefror	395 Hannah Mair	Marc 10:13–16 (Beibl Cymraeg Newydd) Danial Jones
17 Chwefror	394 Bedwyr Llŷr	Salm 40: 1–10 (Beibl.net) Llio Eurgain
10 Mawrth	155 Fflur Edwards	Mathew 4:1–11 (Beibl Cymraeg Newydd) Catrin Edwards
17 Mawrth	399 Iolo Jones Evans	Salm 105:1–5 (Beibl.net) Eleri Wyn Roberts
24 Mawrth	125 Fflur Jones	Eseia 55:1–7 (Beibl.net) Meilyr Lynch
31 Mawrth	150 Noa Dafydd	Salm 108: 1–6 (Beibl.net) Cai Dafydd
7 Ebrill	391 Elen Gwynn	Marc 11: 1–10 (Beibl.net) Owain Gwynn

Diolch yn fawr am eich cyfraniad
Os bydd plentyn neu deulu'n newid Sul gyda rhywun arall, hysbyser Mari Lois – dwjmlw@hotmail.com / 07980 287933. Diolch.

MASNACH DEG

Cofiwch bob amser ein bod wedi cytuno fel eglwys i ymrwymo i Fasnach Deg, felly cofiwn ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg, megis coffi, siwgr a bisgedi, yn ein holl gyfarfodydd.

Y DYDDIADUR

IONAWR 2019

Iau 31ain, 7.00	SEIAT

CHWEFROR

Iau 10fed, 7.00	Y GYMDEITHAS Y Prifardd Gwion Hallam: "Awen a Dementia" *Llywydd: Gareth Tilsley*
Iau 14eg, 7.00	SEIAT

Cofiwch:
CHWEFROR A MAWRTH
Bob nos Lun

CIC BANG BACH:
6.15–7.15
CIC BANG:
7.30–9.00

MAWRTH

Iau 7fed, 6.30	Y GYMDEITHAS CINIO GŴYL DEWI

CRISTION

Mae'r cylchgrawn ar ei newydd wedd dan olygyddiaeth y Parch. Owain Llŷr Evans, Caerdydd. Mae'n ddiddorol a lliwgar a phob rhifyn yn dilyn thema arbennig.

Cyhoeddir chwe rhifyn bob blwyddyn, a chan ein bod fel eglwys yn archebu 15 neu fwy o gopïau gellir eu cael am bris gostyngol o £8 y flwyddyn.

Os hoffech dderbyn ***Cristion*** rhowch eich enw a'ch arian i Dr Gwilym Roberts, os gwelwch yn dda.

Byddai swyddogion y capel yn falch iawn o recordio gwasanaethau ar gyfer aelodau sydd yn cael anhawster i fynychu'r oedfaon.

Os hoffech i ni recordio gwasanaeth ar eich cyfer cysylltwch ag un o'r blaenoriaid neu ffoniwch Dr Gwilym Roberts ar 01248 370377

DAU FEDYDD

Yn ystod gwasanaeth Nadolig yr ieuenctid ar 23 Rhagfyr, bedyddiwyd Lŵsi Fflur Wynn Hogan, merch Manon Fflur Wynn a Liam Edward Hogan, Llanfair-pwll (uchod). Yna, ar 6 Ionawr, cafodd Gwion Jones-Evans, mab Geraint a Mari Jones-Evans, Penrhosgarnedd, ei fedyddio.